

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWYD AR NOS LUN 26AIN O IONAWR 2015 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Philip Williams (Cadeirydd), Hywel Davies, Barri Evans, Gwennan Hughes, Elfed Williams, Iwan Jones, Stan Williams, Iona Edwards-Jones, Jill Evans, Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Falmai Evans.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 24ain o Dachwedd 2014 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION

A. Nid mae'r perchennog Maes Carafannau Cae'r Mynydd, Saron wedi tynnu'r cais cynllunio yn ôl fel awgrymodd yr ymgeisydd yn y cyfarfod blaenorol.

B. Nid mae'r Cyngor Sir Ddinbych am roi bin ysbwriel baw cŵn wrth Faes Carafannau Cae'r Mynydd yn Saron. Penderfynwyd tynnu sylw'r Warden Cŵn Cyngor Sir Ddinbych am broblem Baw Cŵn wrth safle Cae'r Mynydd yn Saron.

C. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Bennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylchedd Cyngor Sir Ddinbych yr "A Boards" wedi cael ei thynnu tu allan i Siop-y-Pentre yn Llanrhaeadr o dan Bolisi Pwyllgor Craffu'r Cyngor Sir Ddinbych.

D. Penderfynwyd yr aelodau i gael cyfarfod safle i symud yr "Safle Bws" yn Saron cyn ystyrid prynu Lloches Bws i'r safle.

E. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb oddi wrth Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn â'r materion ffyrdd y gymuned a chodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor.

4. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £17,956.00.

B. Derbyniwyd rhan olaf o'r 2014/15 - £3,928.00.

C. Taliad - Cyngor Sir Ddinbych am gyfarfod blaenorol y Cyngor - £20.00.

D. Precept 2015/16 y Cyngor. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd gadael yr Precept y Cyngor 2015/16 ar £24.00 y preswyl, sef cyfanswm o £11,928.00.

5. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Is-orsaf trydan yn Goedwigoedd Clocaenog, Saron - penderfynwyd yr aelodau i wrthwynebu'r cais cynllunio a chytunodd Y Cynghorydd Iona Edwards-Jones rhoi'r manylion o'r gwrthwynebiad i'r Clerc yn ystod yr wythnos.

B. Tyrbín Wynt yn Tyn-y-Ffynnon, Nantglyn - Penderfynwyd yr aelodau i wrthwynebu'r cais cynllunio oherwydd bod y tyrbín yn rhy agos at dai gyferbyn ac yn swnion yn bennaf.

6. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd gwybodaeth gan Y Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch Welch yn cadarnhau bod y Cyngor Sir wedi rhoi cais cynllunio i mewn i adeiladu tai ar safle Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych.

B. Derbyniwyd llythyr oddi wrth SYM Llanrhaeadr WI yn gofyn i'r Cyngor Cymuned Llanrhaeadr chymered drosodd chostau'r cyn Ciosg Ffon BT yn llan Llanrhaeadr. Penderfynwyd yr aelodau i'r Cyngor beidio cymered drosodd y costau'r ciosg.

C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

7. UNRHYW FATER ARALL.

A. Rhoddwyd caniatâd i'r Cadeirydd gofyn am brisiau am ail wneud y wal Gof Golofn Llanrhaeadr.

B. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gwneud ymholiadau ynglŷn ag oes modd rhoi enwau ar fwy nac un gof golofn.

C. Cytunodd y Cadeirydd wneud ymholiadau ynglŷn ar wastraff sydd wedi ei adael ar dir tu ôl i Ysgol Pant Pastynog ym Mhrion.

D. Cytunodd Y Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch wneud ymholiad ymhellach ynglŷn â chwtogi'r cyflymdra traffig tu allan i Ysgol Bro Cinmeirch yn Llanrhaeadr.

E. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

1. Cyflwr gwael y ffodd rhwng Fron, Prion a Chapel Saron.

2. Mae'r llinell wen wedi ei ddiflannu ac eisiau ei ail pheintio wrth Siop-y-Pentre yn Llanrhaeadr.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 23ain o Chwefror 2015 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.30 o'r gloch.